

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei dynnu

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei dynnu.

Nid yw'r cyhoeddiad hwn bellach yn gyfredol.

A allech chi redeg Clwb Gwaith?

Gwybodaeth gyfreithiol bwysig

Dim ond er gwybodaeth yw'r ddogfen a enwir 'A allech chi redeg Clwb Gwaith?' ac mae'n cynnig cyngor ymarferol a chanllawiau i'r sefydliadau hynny sydd â diddordeb mewn sefydlu neu gefnogi Clwb Gwaith. Ni fydd hyn yn disodli'r angen i'r sefydliadau sy'n ymwneud â Chlybiau Gwaith geisio cyngor gan eraill, gan gynnwys cyngor cyfreithiol.

Bydd unrhyw Glwb Gwaith a gaiff ei sefydlu yn endid preifat a bydd unrhyw fater sy'n codi o ganlyniad i'w sefydlu neu ei gynnal neu mewn perthynas â hynny yn fater preifat i'r Clwb Gwaith ac nid i'r Adran Gwaith a Phensiynau na'r Ganolfan Byd Gwaith.

Y Clwb unigol fydd yn gyfrifol am ddatrys unrhyw faterion neu gwynion sy'n codi o ganlyniad i Glwb Gwaith, gan ei aelodau neu gan aelodau'r cyhoedd. Ni fydd y Ganolfan Byd Gwaith, mewn unrhyw ffordd, yn atebol am unrhyw fater sy'n ymwneud â'r Clybiau Gwaith neu mewn perthynas â'r cynnwys neu'r wybodaeth sydd yn y canllaw hwn. Nid yw'r Adran Gwaith a Phensiynau/y Ganolfan Byd Gwaith yn atebol nac yn rhoi unrhyw indemniad.

Bydd disgwyl i unrhyw sefydliad sy'n ymwneud â darparu Clybiau Gwaith gydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol, gan gynnwys y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd, y Ddeddf Cydraddoldeb 2010, y Ddeddf Hawliau Dynol a'r Ddeddf Diogelu Data. Ni fydd yr Adran Gwaith a Phensiynau/y Ganolfan Byd Gwaith yn ymwneud â gorfodi na monitro cydymffurfiaeth neu ddatrys anghydfodau.

Gan na chaiff Clybiau Gwaith eu harwain gan y Ganolfan Byd Gwaith ac nad oes cytundeb ffurfiol rhwng y Ganolfan Byd Gwaith a'u trefnwyr, ni fydd y Ganolfan Byd Gwaith yn atebol am unrhyw faterion sy'n ymwneud â Chlybiau Gwaith. Y sefydliad(au)/yr unigolyn(unigolion) sy'n ymwneud â darparu'r Clwb Gwaith sy'n gyfreithiol gyfrifol am gynnal safonau iechyd a diogelwch unrhyw Glwb Gwaith a gynhelir ar ei/eu safle.

Y sefydliad(au)/yr unigolyn(unigolion) fydd yn gyfrifol am dalu costau unrhyw wiriadau cysylltiedig gan gynnwys gwiriadau Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB), ar gyfer y cwsmer/gwirfoddolwr, ac ni all y Ganolfan Byd Gwaith dalu am y rhain.

Nid yw'r Adran Gwaith a Phensiynau/y Ganolfan Byd Gwaith yn caniatáu i logos na lluniau/deunydd hawlfraint nac unrhyw Eiddo Deallusol yr Adran Gwaith a Phensiynau gael eu defnyddio gan Glybiau Gwaith a/neu fynegiad at unrhyw gysylltiad â'r Adran Gwaith a Phensiynau/y Ganolfan Byd Gwaith drwy gyfeirio atynt mewn dogfennau neu ar lafar oni bai bod y Ganolfan Byd Gwaith wedi rhoi caniatâd ysgrifenedig penodol.

Dim ond at ddibenion enghreifftiol y mae'r ddogfen hon, ac nid yw'n cyflwyno ei hun fel cyngor cyfreithiol. Cynghorir yn gryf i'r darllynydd geisio cyngor annibynnol, gan gynnwys cyngor cyfreithiol.

Ymwadiad

Er y cymerir pob gofal a diwydrwydd i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn rhoi canllaw cyffredinol, nid yw'r Adran Gwaith a Phensiynau yn gwarantu bod y wybodaeth sydd yn y ddogfen hon yn gywir nac yn gyfredol ac ni fydd yn atebol am unrhyw amgylchiadau o ran unrhyw golled, costau difrodi, taliadau na threuliau posibl sydd, mewn unrhyw ffordd, yn codi o'r ffaith bod yr Adran Gwaith a Phensiynau wedi darparu'r ddogfen hon.

jobcentreplus
canolfanbyd gwaith

Department for Work and Pensions
Adran Gwaith a Phensiynau